**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 02920 468680

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 02920 468680

Ein Cyf / Our Ref: CL/PW/POAB/

Dyddiad / Date: 1 Rhagfyr 2025

[redacted]

Mike Hedges AoS
Cadeirydd, Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Gadeirydd,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 6 Tachwedd 2025 ynglŷn â gwaith craffu'r Pwyllgor o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd). Ar ôl derbyn eich llythyr, fe gysylltais â Phrif Weithredwyr a Swyddogion Monitro Awdurdodau Lleol ac rwy'n croesawu'r cyfle i roi crynodeb i chi o'u barn ar y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

**Ymgysylltu ac Ymgynghori**

Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn dweud nad ydynt wedi cymryd rhan yn uniongyrchol wrth lunio'r Bil, ac ni fu ymgynghori â nhw ar ei ddarpariaethau. Mae ymgysylltu hyd yn hyn wedi bod yn gyfyngedig i wybodaeth a rannwyd gan Lywodraeth Cymru a deunydd sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae Cynghorau sydd wedi ymateb wedi mynegi awydd i gael proses ymgysylltu sydd yn fwy ystyrlon, yn enwedig o ystyried goblygiadau sylweddol y Bil i lywodraethu datganoledig a gweithrediad Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

**Cwmpas, Effaith a Goblygiadau Anfwriadol**

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

**wlga.cymru**
**wlga.wales**
@WelshLGA

Yn gyffredinol mae Cynghorau'n cefnogi egwyddorion o dryloywder, gonestrwydd ac atebolrwydd, yn enwedig mewn perthynas ag ymchwiliadau cyhoeddus  Serch hynny, mae yna bryderon am ehangder y dyletswyddau statudol newydd a'r troseddau sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil. Mae Awdurdodau wedi tynnu sylw at y risg y gallai darpariaethau'r Bil ddyblygu neu gymhlethu fframweithiau Cymreig presennol, megis Cod Ymddygiad Aelodau, Cod Ymddygiad i Weithwyr Llywodraeth Leol, a threfniadau Chwythu'r chwiban sydd wedi'u sefydlu.

Mae yna bryder penodol y gallai'r Bil greu llywodraethau cyfochrog, gan arwain at ansicrwydd dros ba safonau sy'n berthnasol mewn sefyllfa benodol a gwrthdaro posibl rhwng cyfraith y DU a chyfraith ddatganoledig. Mae Cynghorau hefyd wedi mynegi'r risg o or-ataliaeth, lle gallai swyddogion deimlo'n ddiamddiffyn ac yn gyndyn o wneud penderfyniadau cymesur, allai rwystro ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol. Fe allai drafftio troseddau newydd, yn enwedig mewn perthynas â'r trothwy ar gyfer "byrbwylltra" neu "weithredoedd amhriodol difrifol" gael effaith andwyol ar wneud penderfyniadau, peidio ag annog pobl i fod yn agored, a thanseilio diwylliant o ddysgu ac o welliant.

**Adnoddau a Goblygiadau Gweithredol**

Mae Cynghorau'n rhagweld goblygiadau adnoddau a gweinyddol sylweddol, yn cynnwys yr angen i ddiwygio codau ymddygiad, darparu hyfforddiant staff ychwanegol, a sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyletswyddau statudol newydd. Mae yna bryderon am amddiffynoldeb cyfreithiol cynyddol, costau ychwanegol, a'r risg o erlyniad dwbl neu brosesau disgyblaethol a chyfreithiol sy'n gwrthdaro.

**Dyblygu Mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli**

Mae llywodraeth leol Cymru eisoes yn gweithio o dan drefn safonau llywodraethu a moesegol cynhwysfawr ac aeddfed. Mae Cynghorau wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau statudol newydd yn alinio ag effeithiolrwydd fframweithiau presennol Cymru, ac nad ydynt yn eu tanseilio. Mae yna alwad cryf am ganllawiau clir ac eglurder deddfwriaethol am y berthynas rhwng y Bil a'r mecanweithiau presennol, yn ogystal â gweithrediad ymarferol y dyletswyddau newydd.

**Ymrwymiad i'r Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Gyhoeddus**

Mae Awdurdodau Lleol Cymru wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth a goroeswyr trasiedïau cyhoeddus. Yn gynharach eleni, fe arwyddodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru'r Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Gyhoeddus. Mae'r Siarter yn ymrwymo sefydliadau i fod yn agored, yn dryloyw, ac atebol, ac i osod anghenion teuluoedd mewn profedigaeth yn ganolog i'w hymateb i ddigwyddiadau mawr. Mae'r Siarter yn cynrychioli newid diwylliannol sylweddol ac mae'n dangos agwedd ragweithiol y sector i ddysgu gwersi o drasiedïau'r gorffennol a chefnogi'r rhai fydd yn cael eu heffeithio yn y dyfodol.

**Casgliad**

Mae llywodraeth leol Cymru wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o wasanaeth cyhoeddus ac atebolrwydd. Mae Cynghorau yn annog bod unrhyw ddyletswyddau statudol newydd yn cael eu datblygu drwy ymgynghori'n agos gyda llywodraethau datganoledig ac awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau eu bod yn alinio â fframweithiau presennol ac i osgoi goblygiadau anfwriadol.
Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth neu eglurhad arnoch.

Yn ddiffuant,

Dr Chris Llewelyn
**Prif Weithredwr**

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

@WelshLGA